



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cydweithfa Cartrefi Cymru Gogledd Cymru

**Cartrefi Cymru
30 Stryd y Deon
Bangor
LL57 1UR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/12/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cydweithfa Cartrefi Cymru Gogledd Cymru

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf
Lleuedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	22 Medi 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion ac i gyflawni eu canlyniadau cadarnhaol. Mae'r cynlluniau personol ar waith i roi gwybod i'r gweithwyr gofal am y lefel o gymorth mae pob person ei angen a sut y dymuna gael ei gymorth. Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i fod yn iach ac yn ddiogel. Caiff asesiadau risg eu defnyddio i reoli risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl. Cânt hefyd eu defnyddio i alluogi'r bobl i gymryd risgiau cadarnhaol, sy'n gwella ansawdd eu bywyd a'u hymdeimlad o lesiant. Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir ac yn ei ddisgrifio fel un rhagorol. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnig dewisiadau i'r bobl ym mhob agwedd ar benderfyniadau o ddydd i ddydd. Caiff y bobl eu cefnogi i gynyddu eu hannibyniaeth ac i ddysgu sgiliau newydd. Caiff cyfleoedd eu creu i'r bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac i fod yn rhan o'u cymunedau eu hunain.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, maent yn cael hyfforddiant priodol, a chânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Maent yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr yn eu rolau. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am sut caiff y gwasanaeth ei ddarparu a chaiff eu barn ei hystyried fel rhan o ddatblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus yn ogystal â sicrhau bod y bobl yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff trefn bob person o ddydd i ddydd ei barchu, ac mae'r bobl yn dewis sut y mae'n dymuno treulio ei ddiwrnod. Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau, gartref ac yn y gymuned ehangach. Gwneir ymdrechion i gasglu barn y bobl am y gwasanaeth y maent yn ei gael a pha welliannau yr hoffent eu gweld yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd gan y bobl, mae'r darparwr wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar y gymuned. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu'r rhain, yn ogystal â chymryd rhan ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r profiadau hyn, ac yn edrych ymlaen at y rhai yn y dyfodol. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar lefel darparwr y gwasanaeth, yn cynnwys y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Golyga hyn bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed, a bod eu barn yn llywio datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r bobl yn hapus ac yn gallu gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Caiff cyfleoedd i ymgysylltu a chyfrannu at y gymuned eu hwyluso'n gyson. Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn rhan o'u cymunedau lleol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Er enghraifft, gall y bobl a oedd yn gweld rhyngweithio gydag eraill yn anodd yn flaenorol bellach ddefnyddio'r cyfleusterau lleol megis siopau, siop trin gwallt a chaffis. Mae'r bobl eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu galluogi i wneud newid cadarnhaol yn eu hardal leol. Roedd yr enghreifftiau a welsom yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgaredd casglu sbwriel ar y traeth, codi arian ar gyfer digwyddiadau a chefnogi banciau bwyd lleol. Gwneir ymdrechion i ddod i adnabod yr hyn y mae'r bobl yn hoffi ei wneud a chaiff hyn ei gofnodi yn eu cynlluniau personol. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i wneud y pethau sydd o bwys iddynt. Dywedodd un person wrthym *"I do what I want to do"*.

Caiff cydberthnasau cadarnhaol a diogel eu hyrwyddo. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi eu gweithwyr gofal a gwelsom fod y rhyngweithio â'r bobl yn ofalgar, yn gyfeillgar ac yn barchus. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y gweithwyr gofal yn *"respect people as they are"* a gwnaethant ddisgrifio'r gofal a ddarperir fel rhagorol. Mae trefniadau ar waith i gefnogi'r bobl i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teulu, ac i wneud cysylltiadau cymdeithasol newydd.

Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn hyrwyddo iechyd a llesiant y bobl. Mae anghenion iechyd pob person yn hysbys, ac mae'r ffordd y caiff eu hanghenion iechyd eu diwallu yn cael ei gofnodi yn eu cynllun personol. Mae'r cofnodion yn dangos y cysylltir â gweithwyr proffesiynol pan fydd anghenion y bobl yn newid a dilynir y canllawiau a dderbynir.

Gofal a Chymorth

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys cyn iddynt ddechrau derbyn gwasanaeth. Caiff gwybodaeth berthnasol ei chasglu gan y bobl, a'r rhai sy'n eu hadnabod eisoes, wrth benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion pob person. Dywedodd perthynas wrthym; *“with family involvement encouraged, the transition from home to full time care is well supported”*. Gwelsom fod y wybodaeth a gesglir yn cael ei throsglwyddo i gynlluniau personol y bobl, sy'n sicrhau bod y gweithwyr gofal yn darparu'r gofal cywir i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff cynlluniau personol eu cadw'n gyfredol yn unol ag unrhyw newidiadau a rhoddir gwybod i'r gweithwyr proffesiynol pan fo angen.

Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl, a'u dewisiadau ar gyfer sut maent yn dymuno cael eu cefnogi. Maent yn canolbwyntio ar y canlyniadau ac yn cynnwys dyheadau a dymuniadau'r bobl. Cadarnhaodd y bobl fod y gweithwyr gofal yn darparu eu gofal yn y modd yr hoffent gael eu cefnogi. Gwnaethant ddisgrifio eu gofal fel rhagorol. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y gweithwyr gofal yn *“go out of their way to support the individual”*. Gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu defnyddio i reoli'r risgiau hysbys i iechyd, diogelwch a llesiant y bobl. Anogir cymryd risgiau cadarnhaol, sy'n gwella mwynhad y bobl o'u bywyd. Caiff pob person ei gefnogi i gyrraedd ei lawn botensial. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn llawn cymhelliant gan alluogi'r bobl i gynyddu eu hannibyniaeth ac i ddatblygu sgiliau newydd yn barhaus.

Mae mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisi diogelu cynhwysfawr ar waith a darperir hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus yn eu cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am les y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom y rhoddir gwybod am faterion diogelu yn brydlon i'r rheolwyr, sy'n cyflwyno adroddiadau diogelu yn briodol i'r awdurdod lleol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw'n iach. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi cyflyrau meddygol y bobl a sut y cânt eu rheoli. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i gael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd ac i fynychu apwyntiadau iechyd. Caiff cyngor a chanllawiau gan weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol mewn ymateb i newidiadau i iechyd y bobl. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i fod yn heini ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn eu cymuned eu hunain ac anogir ffordd iach o fyw.

Darperir gofal a chymorth i'r bobl yn eu dewis iaith, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Caiff y Gymraeg ei chydabod fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a gwneir ymdrechion i'r bobl gael eu gwasanaeth yn Gymraeg os mai dyma yw eu dymuniad.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben cyfredol ar gael sy'n rhoi'r gwybod i'r bobl yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael, sy'n cael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n hygyrch i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut gall y bobl wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud, a sut yr ymatebir i gwynion. Dywedodd y bobl wrthym y byddent yn dweud wrth y gweithwyr gofal neu'r rheolwr pe bai unrhyw beth nad oedd yn hapus ag ef.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom fod gwiriadau addasrwydd cyn-cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cymryd rhan yn y cyfweiliadau ar gyfer gweithwyr gofal newydd, a chaiff eu safbwyntiau eu hystyried fel rhan o'r broses penodi. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu a hyfforddiant gorfodol pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Darperir hyfforddiant pellach ychwanegol er mwyn gwella gwybodaeth a sgiliau'r gweithwyr gofal. Mae'r gweithwyr gofaly'n disgrifio'r hyfforddiant maent yn ei gael fel rhagorol, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu yn eu gyrfaedd. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan yr uwch-reolwr. Darperir sesiynau goruchwyllo un i un yn rheolaidd, a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y cymorth maent yn ei gael yn eu rolau yn *“excellent”* ac yn *“amazing”*. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym; *“staff genuinely care and go above and beyond for the individuals we support”*.

Mae trefniadau strwythuredig ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Mae polisiâu ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth, yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â lleoliadau lle darperir gwasanaethau yn ffurfiol y rheolaidd, i wneud yn siwr bod y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r datganiad o ddiben. Yn ystod yr ymweliadau, cesglir adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u gweithwyr gofal, ac mae hapwiriadau o'r ddogfennaeth gofal yn cael eu cwblhau. Yn ystod trafodaethau â'r Unigolyn Cyfrifol, gwelsom ei fod yn adnabod pob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac roedd pob person y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol. Mae adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, ceisir cyfleoedd i wella a datblygu'r gwasanaeth a ddarperir yn gyson. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt, a gwelsom sawl enghraifft lle roedd y darparwr wedi cymryd camau mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 19/01/2024